

# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**HSS(2)-04-07(p8)**

**Dyddiad: Dydd Iau 1 Mawrth 2007**

**Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) i Anghydraddoldebau Iechyd**

## **Diben**

Mae'r papur hwn yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y DRC; 'Triniaeth Gyfartal: Cau'r Bwlch' Adroddiad ar gyfer Cymru, ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd a brofir gan bobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl.

## **Cefndir**

Yn 2004 cychwynnodd y DRC Ymchwiliad Ffurfiol i anghydraddoldebau iechyd corfforol a brofir gan bobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl gyda'r bwriad o ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo arfer da wrth drin pobl anabl. Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Ymchwiliad.

Canfu Adroddiad yr ymchwiliad fod pobl ag anabledd dysgu neu salwch meddwl yn llawer mwy tebygol nag eraill o gael problemau iechyd sylweddol. Mae'r adroddiad yn dadlau na thargedwyd y grwpiau hyn yn systematig gan raglenni i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer y Llywodraeth, comisiynwyr gwasanaethau, darparwyr gofal sylfaenol ac Arolygiaethau.

Cyhoeddodd y DRC ei adroddiad llawn ar gyfer Cymru a Lloegr ar 14<sup>eg</sup> Medi 2006. Lluniwyd adroddiad ar wahân yn crynhoi gwaith yr ymchwiliad ac yn nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol fel y maent yn berthnasol yng Nghymru a chyflwynodd y DRC yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 11<sup>eg</sup> Hydref 2006. Ar ôl y Pwyllgor trefnodd y DRC ddiwyddiad lansio yn y Cynulliad. Cyfarfu DRC Cymru â'r Gweinidog ar 19<sup>eg</sup> Medi 2006 i drafod ei ganfyddiadau.

## **Themâu Trawsbynciol**

Mae'r 11 o argymhellion cyffredinol a wnaed i'r DRC gan ei Banel Ymchwilio yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi o fewn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Nodi ymateb cychwynnol (Atodiad 1) Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob un o'r argymhellion yn adroddiad y DRC.

Brian Gibbons

Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Pwynt cyswllt: Peter Martin, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ffôn 029 2082 5988

### Atodiad 1

#### Argymhelliad 1: Gweithredu ac Arwain

"Mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol i bobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl weithredu ar unwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y gwasanaethau gofal iechyd corfforol ac iechyd sylfaenol a brofir gan yr unigolion hyn."

#### Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'n rhaid i'r hawl mynediad i driniaeth effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd fod wrth wraidd y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol yng Nghymru.

Cyhoeddwyd Safonau Gofal Iechyd Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005, ac maent yn hyrwyddo fframwaith ar gyfer gofal yn seiliedig ar werthoedd a rennir ar gyfer sicrhau y darperir gwasanaethau o safon yn deg, yn gadarn ac yn foesebol ar draws yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru neu ar ei gyfer, ni waeth beth fo'r lleoliad.

Sefydlwyd y 'Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd' yn 2001 i ysgogi a hyrwyddo gweithredu yn lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt gan gynnwys anghydraddoldebau o ran mynediad i wasanaethau iechyd. Dyma feysydd craidd adroddiad yr Athro Townsends 'Targedu Iechyd Gwael' sydd, ynghyd â'r 'Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol' gan Derek Wanless, yn darparu'r prif ffactorau sbarduno ar gyfer ein cyfeiriad strategol.

Mae prosiect 'Hearts & Minds' yn Wrecsam a wnaeth gryn dipyn o waith gyda gwasanaethau statudol a gwirfoddol i wella'r ddarpariaeth sgrinio iechyd ym maes gofal sylfaenol a mynediad i gyfleoedd hybu iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl hirdymor yn enghraifft o fenter a gynorthwywyd trwy'r 'Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd'. Roedd y prosiect yn fodd i'r ddau grwp cleient wella eu mynediad i ofal sylfaenol ar gyfer sgrin iechyd corfforol, cyngor hybu iechyd a chymorth i'w cyfeirio at wasanaethau lleol. Dechreuodd y cymorth gyda phrawf iechyd ym meddygfa meddyg teulu'r person.

Rhodddwyd canllawiau i bob meddyg teulu dan gontract annibynnol ar gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a bydd yn rhaid iddynt ystyried y canllawiau hyn wrth gyflwyno cynigion ar gyfer arian i'r Fforwm Ystadau Gofal Sylfaenol.

## Anableddau Dysgu

Yn 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau i awdurdodau ar Egwyddorion Gwasanaeth/Ymatebion Gwasanaethau. Mae'r canllawiau hyn, sy'n ymwneud ag oedolion ag anabledd dysgu, yn cydnabod bod iechyd cyffredinol pobl ag anabledd dysgu yn waeth a bod ganddynt anghenion iechyd mwy penodol na'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r canllawiau hyn yn hyrwyddo profion iechyd rheolaidd, gan gynnwys iechyd y geg, ac yn pwysleisio y dylai fod gan bobl ag anabledd dysgu:

- hawl mynediad cyfartal i wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, eilaidd ac arbenigol
- mynediad i wasanaethau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflyrau meddygol cyffredin a chyflyrau meddygol y gellir eu trin

## Iechyd meddwl

Cydnabu Llywodraeth Cynulliad Cymru fod pobl â phroblemau iechyd meddwl dair i bedair gwaith yn fwy tebygol o ymgynghori â'u Meddyg Teulu, ond yn gyffredinol fod ganddynt fynediad gwaeth a llai o fynediad i fentrau hybu iechyd a gofal iechyd corfforol.

Cyhoeddwyd canllawiau gweithredu polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 yn dwyn y teitl, 'Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion mewn Lleoliadau Gofal Iechyd Sylfaenol yng Nghymru'. Nododd ddau brif amcan:

- Darparu fframwaith lle y gellir gwella safon y gofal sylfaenol a gynigir i gleifion â phroblemau iechyd meddwl
- Diffinio'r cymorth y mae ei angen ar ofal sylfaenol gan Fyrddau Iechyd Lleol a gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i gyflawni hynny.

Wrth ddisgrifio swyddogaethau tîm gofal iechyd sylfaenol, nododd y canllawiau yn glir y dylid darparu'r canlynol ar gyfer pobl â phroblem iechyd meddwl:

- Asesiad o anghenion gofal iechyd meddwl
- Monitro anghenion gofal iechyd corfforol a meddwl pobl â phroblem iechyd meddwl difrifol a pharhaus
- Trin problemau iechyd corfforol a meddwl yn effeithiol

Ar ben hynny nododd y canllawiau'r canlyniadau disgwylidig ar gyfer targedu pobl â salwch meddwl:

- gwella iechyd corfforol cleifion â salwch meddwl difrifol
- datblygu cofrestr practis o bawb sydd â diagnosis o sgitsoffrenia neu anhwylder affeithiol

deubegynol (bydd hyn yn galluogi i ofal wedi'i dargedu gael ei gynnig i'r grwp cleientiaid hwn)

- nodi'r bobl hynny â salwch meddwl difrifol sy'n derbyn gofal gan ofal sylfaenol neu eilaidd a pha aelodau o'r grwp cleientiaid hwn sy'n derbyn gofal cymdeithasol
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng timau iechyd meddwl cymunedol (TIMC) a thimau gofal iechyd sylfaenol (TGIS)
- sail gadarn ar gyfer datblygu arolygon mwy soffistigedig.

Yn 'Cynllun Oes' mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i asesu faint o gynnydd a wnaed o ran gwella iechyd Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi strategaeth anghydraddoldebau iechyd diwygiedig yn 2009, ac yn sicrhau y cynhwysir materion yn ymwneud ag anghenion iechyd corfforol pobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl o fewn y strategaeth. Rhwng nawr a'r adeg y llunnir strategaeth anghydraddoldebau iechyd, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog gwasanaethau i barhau i weithredu yn unol â'r agenda anghydraddoldebau iechyd a pharhau i gyflawni cyfrifoldebau statudol.

Er mwyn atgyfnerthu canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd eisoes, bwriadwn:

Targed: Erbyn mis Hydref 2009, datblygu a chyhoeddi strategaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd sy'n cynnwys ffocws ar bobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl ag anableddau dysgu;

Targed: Erbyn mis Hydref 2007, sicrhau yr atgoffir Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol o'u cyfrifoldebau statudol ac ail-bwysleisio pwysigrwydd sicrhau mynediad teg ar draws yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru neu ar ei gyfer.

## **Argymhelliad 2: Cynllunio a Chomisiynu**

"Mae angen i'r broses o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl roi mwy o ystyriaeth i'w hanghenion gofal iechyd corfforol."

### **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae angen sicrhau trefniadau cynllunio a chomisiynu lleol gwell a chliriach sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal iechyd corfforol pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl.

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar ganllawiau statudol diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y cylch nesaf o strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (SIGCLI) o fis Ebrill 2008 yn ddiweddar. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol yn gyfrifol ar y cyd o dan y gyfraith am gynllunio gwasanaethau sy'n hybu iechyd a lles y gymuned, a darparu triniaeth a gofal priodol fel cysyniad integredig.

Mae strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn ceisio gwella iechyd, gofal cymdeithasol a

lles y boblogaeth leol trwy fynd i'r afael â'r ystod lawn o faterion sy'n effeithio ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles pobl, yn ogystal â nodi anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â hwy. Mae'r canllawiau ymgynghori yn adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl ag anableddau dysgu anghenion a esgeulusir weithiau gan wasanaethau prif ffrwd, ac maent yn tynnu sylw at y ffaith bod gan bobl o'r grwpiau hyn iechyd corfforol cymharol waeth.

Fel rhan o'n trafodaethau parhaus gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol, byddwn yn parhau i dynnu sylw at yr angen i asesu anghenion iechyd corfforol pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl a mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Byddwn hefyd yn ystyried sut orau i ddefnyddio ymagwedd 'targedau cynnydd mewn iechyd' i sicrhau y caiff anghenion iechyd corfforol pobl o'r grwpiau hyn eu mesur a'u gwella.

Mae ein canllawiau comisiynu i awdurdodau wrthi'n cael eu hadolygu, a byddwn yn ceisio sicrhau y bydd y broses o ddatblygu trefniadau comisiynu lleol yn rhoi mwy o sylw i fynd i'r afael ag anghenion gofal iechyd corfforol pobl.

Targed: Erbyn mis Ebrill 2008, byddwn yn adolygu'r defnydd a wneir o dargedau cynnydd mewn iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl, ac yn ystyried sut orau i'w defnyddio i sicrhau yr adlewyrchir y cynnydd yn iechyd corfforol pobl o'r grwpiau hyn yn gywir.

Targed: Erbyn mis Ebrill 2008, byddwn yn cyhoeddi canllawiau i bob comisiynydd yn eu hatgoffa o bwysigrwydd asesu anghenion iechyd corfforol pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl a mynd i'r afael â'r anghenion hynny.

### **Argymhelliad 3: Grymuso defnyddwyr**

"Mae angen cymryd camau gweithredu cadarnhaol ar unwaith i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl a'u gofalwyr (a gweithwyr cymorth eraill), lle y bo'n briodol, yn gwybod beth yw eu hawliau mewn perthynas ag iechyd corfforol a'r gwasanaethau i'w cynorthwyo, ac y gallant gymryd rhan neu gael help priodol mewn rhaglenni sydd â'r nod o'u cynorthwyo i reoli eu cyflyrau iechyd corfforol."

### **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Dywed Safonau Gofal Iechyd Cymru 2005 y dylai sefydliadau gofal iechyd, wrth gydnabod anghenion gwahanol o ran ieithoedd, anghenion cyfathrebu, anghenion corfforol ac anghenion diwylliannol:

- darparu gwybodaeth hygyrch sy'n hawdd ei deall ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a pherthnasau a'r cyhoedd am eu gwasanaethau;
- darparu gwybodaeth amserol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu derbyn yn ogystal â threfniadau ôl-ofal a chymorth; a

- darparu cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau drafod opsiynau o ran eu gofal a chytuno arnynt.

Mae'r Rhaglen Cleifion Arbenigol (RhCA) yn helpu i rymuso pobl i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu gofal iechyd eu hunain, trwy ddatblygu sgiliau bywyd a meithrin hyder yn gyffredinol. Wrth i'r RhCA gael ei chyflwyno ledled Cymru mae mwy o gyfle i ddarparu cyrsiau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion grwpiau unigol, e.e. mae un wrthi'n cael ei pharatoi ar gyfer gofalwyr.

Mae angen i bob sefydliad GIG lunio canllawiau ar gyfer gwasanaethau iechyd lleol, ac anogir sefydliadau lleol i fod yn fwy ymatebol i anghenion unigol pobl. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen ei gwneud yn haws i grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau wedi'u dadrymuso gwyno (e. e. plant a phobl ifanc; pobl anabl; pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl; pobl hyn) ac mae'r mater hwn wrthi'n cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith yr ydym yn ei wneud i edrych ar systemau cwynion y GIG.

Mae llawer o Ymddiriedolaethau ledled Cymru eisoes wedi datblygu prosiectau a mentrau arloesol i sicrhau bod sylw yn cael ei roi i anghenion gofal iechyd corfforol pobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r rhain yn cynnwys targedu'r grwpiau hyn ac atgyfeirio pobl at glinigau Dynion Iach neu Ferched Iach, clinigau iechyd rhywiol, e.e. cynllun a ddatblygwyd yng Ngogledd Morgannwg a elwir yn MASH (Mental And Sexual Health) sy'n ymwneud â darparu gwell mynediad i wasanaethau sgrinio Ceg y Groth a Meddygaeth Genhedlol-wrinol (GUM) heb fawr ddim cost ychwanegol trwy wella'r berthynas rhwng y ddau wasanaeth a sicrhau eu bod yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd.

Mae grymuso pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn rhan bwysig o'n strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl. Mae Safon 2 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Oedolion yn canolbwyntio ar rymuso defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ac mae rhan o'r safon hon yn ymwneud â sicrhau bod gan bobl fynediad amserol i wybodaeth gynhwysfawr, glir, briodol a defnyddiol mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd priodol. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod ystod o wasanaethau eiriolaeth penodol, priodol, annibynnol a hyfforddedig ar gael a'u bod yn cael eu hyrwyddo ledled Cymru.

Rydym yn gobeithio sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cymryd rhan wirioneddol ac ystyrlon yn y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau yng Nghymru. O fewn y sector iechyd meddwl mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu gwasanaeth datblygu trwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae sicrhau y cynorthwyr defnyddwyr gwasanaethau, a bod ganddynt fynediad i wybodaeth gyfoes, gan gynnwys hawliau lles a budd-daliadau, i sicrhau bod pobl yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, yn rhan bwysig o'r gwasanaeth hwn.

Lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau ar gynnwys a grymuso defnyddwyr gwasanaethau a elwir yn 'Nerth mewn Partneriaeth', ac mae'n disgrifio rôl defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl o ran datblygu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion.

Mae ein canllawiau i awdurdodau ar oedolion ag anableddau dysgu a gyhoeddwyd yn 2004, yn

pwysleisio y dylai awdurdodau ddarparu gwybodaeth hawdd ei deall am yr ystod lawn o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael i ddiwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu a sut y gallant gymryd ran weithredol mewn ffordd hyddysg mewn proses asesu gofal person-ganolog. Dylai'r wybodaeth hon fod yn berthnasol, yn gyfoes, yn glir, yn amserol a dylid ei chynhyrchu mewn amrywiaeth o fformatau i sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Rydym yn cytuno bod angen sicrhau ein bod yn atgyfnerthu ein hymagwedd bartneriaeth gydag ystod o randdeiliaid allweddol i sicrhau bod gwybodaeth syml am hawliau mynediad pobl i ofal sylfaenol ar gael yn eang, ac ystyried ymhellach sut orau i sicrhau y darperir gwybodaeth hawdd ei deall ar gyfer unigolion.

Mae cam gweithredu allweddol 34 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl oedolion yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau statudol nodi problemau iechyd corfforol pob defnyddiwr gwasanaeth yn glir erbyn mis Mawrth 2007 trwy gymhwyso'r Broses Asesu Unedig gan nodi o fewn meysydd perthnasol unrhyw gyfryw anghenion, y cynllun i ddiwallu'r anghenion hynny a chan sicrhau tegwch mynediad i'r gwasanaethau hyn.

Targed: Erbyn mis Ebrill 2008, byddwn yn cyhoeddi cyngor i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau yn eu hatgoffa bod yn rhaid i drefniadau cynllunio gofal gynnwys darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol i hysbysu pobl am fynediad i ofal sylfaenol, mentrau hybu iechyd a phroffion iechyd.

Targed: Erbyn mis Hydref 2007, byddwn yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar gynnwys a grymuso defnyddwyr gwasanaethau yn y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd meddwl y gellir eu mabwysiadu fel ymagwedd enghreifftiol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

#### **Argymhelliad 4: Cofrestru â meddyg teulu**

"Mae gan bobl ag anableddau dysgu a/neu problemau iechyd meddwl hawl i gofrestru â meddyg teulu ac mae angen sicrhau bod hyn yn realiti."

#### **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae gan bawb yng Nghymru yr hawl i gofrestru gyda meddyg teulu. O dan y contract meddygol cyffredinol newydd, a gyflwynwyd yn 2004, ni all practis wrthod cais onid oes sail resymol dros wneud hynny nad yw'n ymwneud â hil, rhyw, dosbarth cymdeithasol, oedran, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, golwg, anabledd neu gyflwr meddygol.

Ar ben hynny ni all practisau dynnu cleifion oddi ar eu rhestrau am y rhesymau hyn. Pan fydd claf wedi bod yn dreisgar, gan fygwth staff a chleifion eraill, y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol. Bydd yn cynorthwyo cleifion ac yn comisiynu'r gwasanaeth gan sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu sylw Byrddau Iechyd Lleol at y materion a godwyd yn yr adroddiad, yn arbennig ynghylch cofrestru gyda meddyg teulu.

## **Argymhelliad 5: Gofal seiciatrig a gofal sylfaenol**

"Dylid monitro iechyd corfforol pawb sydd ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl o dan ofal gweithredol seiciatrydd mewn adolygiadau rheolaidd drwy wasanaethau gofal sylfaenol yn cynnwys meddyg teulu neu ymarferydd gofal sylfaenol arall."

### **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Sefydlwyd Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd (GYDG) i ofalu am bobl ag anabledd dysgu a/neu broblem iechyd meddwl. Disgwylir i bob practis sy'n dewid cymryd rhan ddarparu gwasanaethau hanfodol ac ychwanegol, y cânt eu contractio ar eu cyfer, i bob un o'u cleifion. Mae manyleb y GYDG yn nodi'r gwasanaethau mwy arbenigol y dylid eu darparu. Mae hyn yn cynnwys agweddau ar ofal clinigol a ddarperir ar gyfer claf â salwch meddwl difrifol, sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas gwasanaethau hanfodol neu'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (FfACh).

Mae'r GYDG ar gyfer Gofalu am Oedolion ag Anableddau Dysgu yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ddarparu prawf iechyd blynyddol ar gyfer oedolion sydd ar y cofrestrau anableddau dysgu a gedwir gan yr awdurdod lleol, fel y disgrifir o dan argymhelliad 9.

Mae dangosydd iechyd meddwl 9 (IM9) y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau wedi'i anelu at sicrhau bod cleifion â salwch meddwl difrifol yn derbyn adolygiad blynyddol sylweddol. Mae dangosydd iechyd meddwl 6 (IM6) yn darparu tystiolaeth o fodolaeth cynllun gofal cynhwysfawr y cytunwyd arno ar gyfer y grwp hwn sy'n agored iawn i niwed.

Gofyniad allweddol y GYDG fydd llunio Adroddiad Salwch Meddwl Difrifol Practis (PSMI).

Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol a newydd gwerthfawr – na fyddai llawer ohoni fel arall yn hysbys nac ar gael i gydlynwyr Dull Cynllun Gofal (DCG) na seiciatryddion ymgynghorol. Dylai'r adroddiad, a fydd yn debyg i adroddiadau a gwblheir ar hyn o bryd ar gyfer cwmnïau yswiriant atgyfnerthu a sicrhau'r llinellau cyfathrebu rhwng practisau a'u timau iechyd meddwl lleol. Bydd y cydlynnydd DCG yn weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol cymwys sy'n gyfrifol am lunio a goruchwylio cynllun gofal y claf.

Bydd angen i bractisau sy'n darparu'r GYDG:

- Ddatblygu a chadw cofrestr o'r unigolion hynny y rhoddir gwybod iddynt eu bod yn derbyn DCG lefel uwch. (Mater i bractisau fydd amseriad yr adroddiad a hwy sy'n gyfrifol am ei gyflwyno. Fel arfer cyflwynir adroddiadau PSMI dilynol yn flynyddol)
- Cwblhau'r adroddiad salwch meddwl difrifol safonol yn y fformat a nodir yn yr atodiad i fanyleb y GYDG



- Anfon yr adroddiad at y meddyg ymgynghorol arweiniol a'r cydlynnydd DCG. Mae cymhwysedd ar gyfer yr GYDG hwn yn gyfyngedig i'r cleifion hynny a osodir ar Ddull Cynllun Gofal lefel uwch. Nododd canllawiau ar y FfACh a gyhoeddwyd yn 2003 y dylid cynnwys pob claf sy'n derbyn triniaeth o dan y DGC yng nghofrestrau iechyd meddwl y FfACh.

Mae'n un o ofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol y darperir copi o gynlluniau gofal claf ar gyfer practisau gwasanaethau meddygol cyffredinol (GMC), lle y maent yn destun DCG, o fewn 7 niwrnod. Felly dylai'r mwyafrif o gleifion sy'n gymwys ar gyfer y GYDG hwn fod yn hysbys i bractisau a dylid eu cynnwys ar gofrestrau iechyd meddwl y FfACh.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo ac yn annog ymagwedd gyfannol at ofal iechyd sy'n mynnu ymagwedd amlddisgyblaethol at gynllunio gofal sy'n nodi'r holl anghenion gofal iechyd meddwl a chorfforol perthnasol a chynllun i'w diwallu. Er enghraifft, datblygwyd cynllun yng Ngogledd Morgannwg a gynorthwyir gan Lily sy'n ceisio sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion gofal iechyd corfforol defnyddwyr iechyd meddwl. Dyma gynllun sy'n cael ei gynnig i Ymddiriedolaethau ei fabwysiadu fel y gwelant orau ac mae nifer o Ymddiriedolaethau yng Nghymru yn cymryd rhan y cynllun neu disgwylir iddynt gymryd rhan ynddo yn y dyfodol agos.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei chanllawiau polisi yn ymwneud â thimau iechyd meddwl cymunedol sydd ar fin cael eu cyhoeddi, yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau y caiff iechyd corfforol pobl ei fonitro.

## **Argymhelliad 6: Pobl sy'n byw mewn lleoliadau gofal preswyl neu leoliadau diogel**

"Dylai pobl ag anabledau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl sy'n byw mewn cartrefi preswyl neu gartrefi nyrsio, fel rhan o drefniadau 'byw â chymorth', mewn carchardai neu mewn llety diogel ar gyfer pobl ifanc gael yr un cyfleoedd i gofrestru â meddyg teulu a manteisio ar opsiynau ar gyfer byw'n iach."

## **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn, a bydd yn tynnu sylw cyrff arolygu, yn ogystal â Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol, at y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

Mae Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2004 yn nodi cyfrifoldebau'r darparwyr cofrestredig. Mae nifer o reoliadau sy'n ymwneud yn benodol â gofal iechyd a byw'n iach. Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) yn rheoleiddio'r lleoliadau gofal cofrestredig. Bydd ASGC yn edrych yn fanwl ar y meysydd canlynol: Dewis o Gartref; Cynllunio ar gyfer Anghenion a hoffterau Unigol; Ansawdd Bywyd; Ansawdd Gofal a Thriniaeth; Staffio; Cynnal a Rheoli'r Cartref; Amgylchedd Ffisegol. Nodir unrhyw achos o dorri'r rheoliadau hyn yn ystod yr arolygiad a chymerir camau rheoliadol a allai ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig gymryd camau brys neu gwneir gofyniad rheoliadol yn yr adroddiad arolygu gydag amserlen ar gyfer y camau y mae angen eu cymryd.

## Y Rheoliadau Cartrefi Gofal

Mae Rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr, gan roi sylw priodol i unrhyw anabledd sydd gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, hyrwyddo iechyd, lles, gofal a lle y bo hynny'n briodol driniaeth defnyddwyr gwasanaethau a darparu ar eu cyfer.

Ar ben hynny mae'n rhaid i'r darparwr alluogi defnyddiwr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau ynghylch ei ofal ac mae'n rhaid iddo ganfod ei ddymuniadau a'i deimladau a'u cymryd i ystyriaeth.

Mae Rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig wneud trefniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau gael eu cofrestru gyda meddyg teulu o'u dewis ac iddynt dderbyn pan fydd angen driniaeth, cyngor a gwasanaethau eraill gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Mae Rheoliad 14 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n nodi anghenion gofal a chynllun ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth sy'n nodi sut y diwellir yr anghenion. (Rheoliad 15). Mae'n rhaid adolygu'r asesiad a'r cynllun ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae Rheoliad 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynghylch gweithgareddau a darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden, ffitrwydd a hyfforddiant a sicrhau y darperir digon o fwyd maethlon. Mae'n rhaid cadw cofnod digon manwl o'r bwydydd a ddarperir fel y gellir barnu a yw'r deiet yn foddhaol o ran maeth ac unrhyw ddeietau arbennig. (Rheoliad 17)

Mae Rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogi cymaint o staff cymwysedig, cymwys a phrofiadol ag sy'n briodol i sicrhau iechyd a lles defnyddwyr y gwasanaeth a bod staff yn derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'w gwaith.

Mae Rheoliad 25 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig gynnal adolygiad o ansawdd y gofal ac ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth a/neu eu cynrychiolwyr.

Mae Rheoliad 27 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr ymweld â'r cartref o leiaf unwaith bob 3 mis a chyfweld â defnyddwyr y gwasanaeth a/neu eu cynrychiolwyr a staff am safon y gofal a ddarperir.

## Yr Isafswm Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal

Mae'r Isafswm Safonau Cenedlaethol (ISC) yn ategu'r rheoliadau ac yn nodi canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r ISC ar gyfer Oedolion Iau yn berthnasol i gartrefi gofal sy'n darparu gofal nyrsio neu ofal personol ar gyfer oedolion 16 – 65 oed y mae ganddynt anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd, anableddau dysgu, anhwylderau sbectrum awtistig, anableddau lluosog cymhleth a/neu broblemau iechyd meddwl. Cynhwysir safonau atodol ar gyfer pobl ifanc 16 – 17 oed sydd ag anableddau yn y ddogfen. Mae'r safonau a'r canlyniadau sy'n berthnasol i Argymhelliad 6 Adroddiad Y Comisiwn Hawliau Anabledd yn cynnwys:

### Safon 2 – Asesu Anghenion

Asesir dyheadau ac anghenion unigol darpar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau mai dim ond ar sail asesiad llawn gan bobl a hyfforddwyd i wneud hynny, sy'n cynnwys defnyddiwr y gwasanaeth gan ddefnyddio dull cyfathrebu priodol, y derbynnir defnyddwyr gwasanaethau newydd.

Dylai'r asesiad gynnwys:

- Rheoli risg
- Gofal iechyd corfforol a meddwl
- Anghenion yn gysylltiedig â chyflyrau penodol a mewnbwn gan arbenigwyr
- Darparu offer anabledd

Safon 3 – Diwallu anghenion

Mae pob gwasanaeth arbenigol a gynigir yn seiliedig ar arfer da cyfredol ac yn adlewyrchu canllawiau arbenigol a chlinigol perthnasol.

Mae gan staff y sgiliau a'r profiad i ddarparu gofal.

Safon 6 – Cynllun ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth

Mae'r cynllun yn ymdrin â phob agwedd ar y cymorth personol a chymdeithasol ac anghenion gofal iechyd

Mae'r cynllun yn nodi sut y diwellir anghenion arbenigol cyfredol a disgwyliedig

Safon 11 – Datblygiad Personol

Cynigir ymyriadau arbenigol gan staff hyfforddedig i ddefnyddwyr gwasanaethau ag anableddau lluosog cymhleth

Safon 17 – Prydau bwyd ac Amserau Bwyd

Cynigir deiet iach i ddefnyddwyr gwasanaethau ac maent yn mwynhau eu prydau bwyd a'u hamserau bwyd

Mae'r person cofrestredig yn hyrwyddo iechyd a lles defnyddwyr gwasanaethau trwy ddarparu prydau bwyd maethlon, amrywiol, cytbwys a gyflwynir yn ddeniadol.

Cynigir dewis o fwydlenni addas i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion deietegol a diwylliannol ac sy'n parchu eu hoffterau unigol.

Asesir ac adolygir anghenion maethol defnyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd gan gynnwys ffactorau risg yn gysylltiedig â diffyg maeth a gordewdra

Cynorthwyr defnyddwyr gwasanaethau y mae angen cymorth arnynt i fwyta yn briodol tra'n parhau i gynnig dewis o ran pryd y maent yn bwyta a beth; ac fe'u cynorthwyr i ddewis cymhorthion bwyta priodol.

## Safon 18 – Cymorth Personol

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn cymorth personol yn y ffordd sydd orau ganddynt ac yn unol â'u hanghenion

Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau y cymhorthion technegol a'r offer y mae arnynt eu hangen i fod mor annibynnol â phosibl (y mae staff wedi'u hyfforddi i'w defnyddio yn ôl yr angen) a nodwyd gan asesiad proffesiynol, a adolygir ac a newidir neu a adnewyddir yn brydlon wrth i anghenion defnyddiwr y gwasanaeth newid, ac a gaiff eu harchwilio'n rheolaidd.

## Safon 19 – Gofal Iechyd

Diwellir anghenion iechyd corfforol ac emosiynol defnyddwyr gwasanaethau.

Cynorthwyr defnyddwyr gwasanaethau i reoli eu gofal iechyd eu hunain, gan gynnwys:

- Cymorth i ddewis eu meddyg teulu, gwneud penderfyniadau ynghylch eu triniaeth gofal iechyd/meddygol, a cheisio ail farn feddygol
- Cymorth i gael mynediad i gyfleusterau gofal iechyd y GIG yn y tîm gofal iechyd sylfaenol lleol
- Cymorth i fynd i apwyntiadau cleifion allanol ac apwyntiadau eraill

Caiff iechyd defnyddwyr gwasanaethau ei fonitro a nodir cymhlethdodau a phroblemau posibl ac ymdrinnir â hwy yn gynnar, gan gynnwys atgyfeirio yn brydlon at arbenigwr priodol

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn cael profion iechyd blynyddol sylfaenol

## Safon 23 – Nodweddion a Chymwysterau Staff

Cynorthwyr defnyddwyr gwasanaethau gan staff cymwys a chymwysedig

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod gan staff y cymwyseddau a'r nodweddion sydd eu hangen i ddiwallu anghenion defnyddiwr y gwasanaeth

Mae gan staff y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y tasgau y disgwylir iddynt eu gwneud

## Safon 30 – Sicrhau Ansawdd

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn hyderus y rhoddir ystyriaeth i'w barn o ran unrhyw waith hunanfonitro, adolygu a datblygu a wneir gan y cartref.

## Safon 31 – Polisiâu a Gweithdrefnau

Diogelir hawliau a lles defnyddwyr gwasanaethau gan bolisiâu a gweithdrefnau'r cartref

## Safon 40 – Addasiadau ac Offer

Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau yr offer arbenigol y mae arnynt eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl.

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau y darperir yr addasiadau amgylcheddol a'r offer anabledd sydd eu hangen i fodloni ei ddiben datganedig ac anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth a aseswyd yn unigol

## Arolygiadau ASGC

Mae defnyddwyr gwasanaethau a / neu eu cynrychiolwyr yn cymryd rhan yn y broses arolygu trwy drafodaethau ac ymgynghoriadau yn ystod yr ymweliad arolygu â'r lleoliad neu drwy ddefnyddio holiaduron. Ceisir barn defnyddwyr gwasanaethau am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'u gofal gan gynnwys, er enghraifft:

- Profiadau defnyddiwr y gwasanaeth o'r lleoliad gofal
- Asesu a chynllunio gofal
- Ansawdd y gofal a ddarperir
- Safon gofal personol
- Gofal iechyd
- Agwedd staff
- Ymateb staff i anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac anghenion sy'n newid
- Prydau bwyd, amserau bwyd, dewis, anghenion deietegol arbennig
- Gweithgareddau hamdden

Gellir ceisio barn gweithwyr proffesiynol ar ymweliad e.e. meddygon teulu, Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol, Deintydd, Ceiropodydd, trwy drafodaeth yn ystod yr ymweliad arolygu neu drwy holiaduron a all gynnwys y canlynol:

- Ymateb y rheolwr a staff i anghenion gofal iechyd defnyddwyr gwasanaethau a'u hagwedd at yr anghenion hynny
- Cyfathrebu â'r cartref
- Yr amgylchedd ffisegol
- Safon gofal personol
- Gweithgareddau hamdden ac adloniant
- Anghenion deietegol

- Cadw cofnodion
- Hyfforddi staff
- Symud a thrafod offer/cymhorthion i fywyd pob dydd
- Rheoli meddyginiaeth
- Hyfywedd meinwe
- Hybu ymatal

Ymgynghorir â staff hefyd yn ystod y broses arolygu trwy drafodaethau uniongyrchol neu holiadur yn ceisio eu barn am e.e.

- Ansawdd pryddau bwyd, amserau bwyd, dewis, amrywiaeth
- Offer
- Asesu a Chynllunio gofal
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau
- Ansawdd gofal
- Hyfforddiant a dderbyniwyd/sydd ei angen

Cynhelir trafodaethau gyda'r darparwr cofrestredig, y rheolwr cofrestredig, staff, defnyddwyr gwasanaethau a/neu eu cynrychiolwyr er mwyn triogli tystiolaeth. Ystyrir safbwyntiau wrth lunio'r adroddiad arolygu.

## **Argymhelliad 7: Eithrio ar sawl sail**

"Mae angen sefydlu gwasanaethau a chynlluniau cydraddoldeb i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl na allant gofrestru â meddyg teulu yn hawdd neu sy'n cael eu heithrio ar sawl sail yn cael gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol llawn a phriodol."

## **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Dylai fod gan bobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl ag anableddau dysgu yr un mynediad i wasanaethau i asesu eu problemau iechyd corfforol a mynd i'r afael â hwy gan gynnwys iechyd y geg, a namau synhwyraidd â dinasyddion eraill.

Yn achos pobl ag anabledd dysgu mae'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i Argymhelliad 1 yn berthnasol yma hefyd. Mae gofal sylfaenol yn cydweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl a chyda chymorth gwasanaethau arbenigol megis gwasanaethau deintyddiaeth cymunedol i sicrhau bod gan bawb y mae angen gofal arnynt fynediad i wasanaethau effeithiol a'u bod yn eu derbyn, ni waeth beth fo eu hamgylchiadau.

Prif nod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yw gwella ansawdd a lleihau amrywiadau annerbyniol o ran darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n nodi'r canllawiau ymarferol a fydd yn sicrhau y caiff gweledigaeth y strategaeth ei gweithredu mewn ffordd gyson a chynhwysfawr ledled Cymru.

Penododd Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r 1<sup>af</sup> o Fawrth 2007 Hyrwyddwr Iechyd a Digartrefedd i weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i wella iechyd a lles pobl ddigartref yng Nghymru.

Byddwn yn tynnu sylw'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol, Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac eraill at yr adroddiad hwn fel y gallant ystyried goblygiadau'r ymchwiliadau ar gyfer eu rhaglenni gwaith.

### **Argymhelliad 8: "Addasiadau rhesymol" i wasanaethau**

"Mae angen i bractisau meddygon teulu a chanolfannau gofal sylfaenol wneud "addasiadau rhesymol" i'w gwneud yn haws i bobl ag anableddau dysgu a / neu broblemau iechyd meddwl allu manteisio'n briodol ar y gwasanaethau a gynigir gan y practis."

### **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Yn 2006, gweithredwyd Gwasanaeth Ychwanegol newydd Dan Gyfarwyddyd (GYDG) yn ymwneud â mynediad. Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn disodli GYDG 2005/06 a ddaeth i ben ar ddiwedd Mawrth 2006. Mae'r GYDG yn ceisio adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes a datblygu mynediad ymhellach i ddiwallu anghenion cleifion.

Yn 2007 rhoddwyd cyllid i bractisau GMC i adolygu mynediad i wasanaethau gan gleifion ag anableddau a chyflwyno adroddiad arno.

Er mwyn gwella gwasanaethau a chynorthwyo gyda'r gwasanaeth ychwanegol newydd dan gyfarwyddyd yn ymwneud â mynediad comisiynwyd rhaglen addysg ar ymwybyddiaeth anabledd ar gyfer meddygon teulu a rheolwyr practisau yn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r prosiect yn ceisio creu amgylchedd lle y gall practisau ofyn yn wirfoddol am hyfforddiant mewn swydd i staff ar ymwybyddiaeth a chydaddoldeb anabledd, a chael eu hasesu i nodi pa mor dda y maent yn datblygu systemau ymwybyddiaeth anabledd. Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg gan EquIP Cymru, sy'n bartneriaeth gydweithrediadol anstatudol o randdeiliaid yng Nghymru, sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo ymwybyddiaeth anabledd a mynediad o fewn lleoliadau gofal sylfaenol ledled Cymru.

### **Argymhelliad 9: Profion Iechyd**

"Dylid cynnig prawf blynyddol ar eu hiechyd corfforol i bobl ag anableddau dysgu a / neu bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus gan arbenigwr gofal sylfaenol a dylent gael ymyraethau iechyd sy'n briodol ar gyfer lefel eu hanghenion iechyd waeth beth fo'u hoedran."

### **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Fel y nodwyd uchod, mae profion iechyd bellach yn realiti i bobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus trwy'r Gwasanaethau Ychwanegol newydd dan Gyfarwyddyd a gyflwynwyd yng Nghymru.

Mae'r GYDG ar gyfer Gofalu am Oedolion ag Anableddau Dysgu yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu prawf iechyd blynyddol ar gyfer oedolion sydd ar y cofrestrau anabledd dysgu a gedwir gan yr awdurdod lleol. Mae'r prawf iechyd sy'n cael ei ddefnyddio yn seiliedig ar brawf iechyd a luniwyd yn benodol ar gyfer cleifion ag anableddau dysgu fel rhan o gynllun peilot Cardiff Healthcheck (prosiect Pearl). Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Anableddau Dysgu Cymru, Prifysgol Cymru i fonitro'r canlyniadau iechyd cyhoeddus o'r profion iechyd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Mae'r GYDG ar gyfer Gofalu am Bobl â Salwch Meddwl yn ategu Maes Clinigol Iechyd Meddwl y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, y cytunwyd arno ac sy'n berthnasol i'r DU gyfan. Y gofyniad allweddol yw llunio adroddiad Salwch Meddwl Practis (PMI) ar gyfer cleifion ar Ddull Cynllun Gofal lefel uwch. Diben canolog yr adroddiad PMI yw atgyfnerthu cynllun gofal y claf, trwy ddarparu adroddiad penodol a strwythuredig. Dylai pob adroddiad fod ar gael i'r seiciatrydd ymgynghorol arweiniol a'r cydlynnydd Dull Cynllun Gofal ar gyfer pob claf.

Datblygwyd a chyhoeddwyd Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn ymwneud â phobl hyn. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol hwn yn cynnwys y canlynol:

## Sgrinio

Clefyd anadlol a chlefyd y galon, strôc, diabetes a thoresgyrn yw'r problemau iechyd mwyaf cyffredin ymhlith pobl hyn ac achosion mwyaf cyffredin derbyniadau i'r ysbyty a marwolaeth. Nodir gweithgareddau hybu iechyd ac atal clefydau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y cyflyrau hyn yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer clefyd coronaidd y galon a diabetes; yn safonau'r FfGC ar gyfer Pobl Hyn ar gyfer Strôc, Cwypmo a Thoresgyrn; a rhoddir sylw iddynt yn Strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Clefyd Anadlol ac Iechyd Cyhyrsgerbydol sydd ar fin cael eu cyhoeddi.

## **Argymhelliad 10: Cymorth ar fyw'n iach ac ymdopi â sgîl-efeithiau**

"Dylid cynnig cymorth hygyrch a phriodol i bobl ag anableddau dysgu a / neu broblemau iechyd meddwl i'w hannog i fyw'n iach a goresgyn unrhyw anfanteision iechyd corfforol a ddaw yn sgîl eu cyflwr neu driniaethau a gânt ar gyfer eu cyflwr yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth, mewn ffurf hygyrch, berthnasol ac wedi'i thargedu, ar sut i roi'r gorau i ysmegu, ar ddeiet da, ar iechyd rhyw, ar alcohol, ar gyffuriau ar y stryd ac ar ymarfer corff."

## **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.



Ym mis Hydref 2006, ar ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu at ddibenion ymgynghori sy'n anelu at wella iechyd a lles meddwl poblogaeth gyfan Cymru, gan gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl ag anableddau dysgu. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn ymdrin â sut i leihau stigma a gwahaniaethu yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n nodi ein safbwynt bod iechyd meddwl a lles yn nodwedd ddymunol ynddi'i hun a'i bod yn golygu mwy na pheidio â phrofi symptomau iechyd meddwl. Mae cyswllt anorfod rhyngddi a theimlad o les ac mae'n un o sylfeini iechyd corfforol da.

Dylid ystyried y modd y rhagnodir pob meddyginiaeth a'r modd y caiff eu sgîl-ffeithiau eu monitro ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl, ac mae'n bwysig bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ffurf y gall y claf ei deall yn hawdd. Dylid cynorthwyo unigolion i weinyddu eu meddyginiaethau yn gywir lle y bo hynny'n briodol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu sylw at hyn yn yr adroddiad i Grwp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan.

Dywed ein canllawiau i awdurdodau ar oedolion ag anabledd dysgu, a gyhoeddwyd yn 2004, pan fydd awdurdodau yn gwneud asesiad gofal person-ganolog, fod yn rhaid iddynt ystyried materion ansawdd bywyd megis materion yn ymwneud â lles emosiynol, perthnasau, hunanofal ac iechyd yr unigolyn.

## **Argymhelliad 11: Hyfforddiant**

"Dylid cynnal rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ac adnoddau gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth (dylid cynnwys defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr i gynllunio a gwneud rhywfaint o'r gwaith darparu) ar gyfer staff gofal iechyd sylfaenol."

## **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae prosiect EquIP Cymru yn ceisio codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb anabledd a mynediad o fewn gofal iechyd sylfaenol. Dylai sefydliadau iechyd fod yn nodi ac yn blaenoriaethu rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff rheng flaen. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant codi ymwybyddiaeth cyffredinol a dylai fod yn ganolog i'r gwaith o gyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd.

Mae'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau yn gyfle arall i sicrhau yr eir i'r afael â'r anghenion hyfforddi hyn fel rhan o brosesau datblygu perfformiad. Mae dimensiwn craidd 6 y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth gyda'r bwriad o ddatblygu fframwaith achrededig. Comisiynwyd Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR) y GIG i ymgymryd â phrosiect i bennu cwmpas y gwaith o ddatblygu fframwaith dysgu modwlar achrededig ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a fydd yn cynnwys cydraddoldeb anabledd wedi'i gysylltu â'r lefelau gwybodaeth a sgiliau o fewn dimensiwn craidd 6 Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau yr Agenda ar gyfer Newid. Nid yw'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau yn berthnasol i staff meddygol, fodd bynnag, dechreuodd CEHR y GIG drafodaethau gyda'r Ddeoniaeth Ôl-raddedig i ddatblygu rhaglen graidd ymwybyddiaeth cydraddoldeb ar gyfer uwch staff meddygol ac mae

hyfforddiant wedi dechrau mewn dwy Ymddiriedolaeth.

Mae rhaglenni ymwybyddiaeth craidd wrthi'n cael eu datblygu yn ychwanegol at waith prosiect y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ac yn 2007-08 bydd CEHR y GIG yn symud i fodel darparu gwasanaethau sy'n darparu rhaglenni hyfforddi'r hyfforddwr craidd sy'n cynyddu gallu sefydliadau'r GIG i sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb priodol ac yr ategir gwaith prosiect penodol, e.e. y Prosiect Cydraddoldeb Cleifion, gan raglenni hyfforddiant ac adnoddau penodol sy'n atgyfnerthu dysgu craidd. Bydd CEHR y GIG, hyd y gellir, yn ymgorffori yn ei gweithgarwch hyfforddi a datblygu, fodel cynnwys staff a defnyddwyr anabl yn y gwaith o gyflwyno elfennau o raglenni hyfforddi cydraddoldeb.

Bydd yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) a CEHR y GIG yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu fframwaith i sicrhau yr ymgorfforir elfennau cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngweithgarwch craidd yr NLIAH gan gynnwys datblygu Arweinwyr a Byrddau, cynllunio'r gweithlu a gweithgarwch moderneiddio, gan gynnwys contractio gyda sefydliadau addysgol a datblygu agweddau ar waith yr Uned Darparu Gwasanaethau.

Mae un o'n hamcanion strategol a nodir yn y strategaeth iechyd meddwl oedolion yn nodi: Mae'n rhaid i Dimau Gofal Iechyd Sylfaenol dderbyn hyfforddiant ac addysg ar gyfer rheoli salwch meddwl o fewn gofal sylfaenol. Er mwyn codi safonau gofal iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol mae angen darparu hyfforddiant ar gyfer y Tîm Gofal Iechyd Sylfaenol cyfan trwy:

- Gynlluniau Dysgu Personol
- Cynlluniau Datblygu Ymarfer<sup>8</sup>

Gall gwasanaethau gofal eilaidd a gweithwyr porth iechyd meddwl gyfrannu at well hyfforddiant gofal sylfaenol ond y meddygon teulu unigol a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am weithredu rhaglenni hyfforddi.

Dywed ein canllawiau i awdurdodau ar oedolion ag anabledd dysgu, a gyhoeddwyd yn 2004, y dylai awdurdodau asesu'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer pob aelod proffesiynol o staff mewn gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion pobl ag anabledd dysgu.

### **Ar ben hynny cynigiodd y Comisiwn Hawliau Anabledd:**

- y dylai'r rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser y coluddyn a gyflwynwyd yn 2006 sicrhau ar unwaith y cynigir gwasanaeth sgrinio i bobl gymwys â sgitsoffrenia ar sail gyfartal; ac wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno fesul cam y dylai ystyried blaenoriaethu pobl â sgitsoffrenia fel grwp mewn perygl;
- dylid mynd ati i gynnig cymorth i bobl â sgitsoffrenia gyda deiet ac ymarfer corff, y gwyddom fod y ddau yn atal canser y coluddyn;
- dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a GIG Cymru ystyried holl ganfyddiadau ymchwil y DRC a'r

holl argymhellion eraill fel y maent yn ymwneud ag atal cancer a sgrinio ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl.

## **Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer cyflwyno rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer cancer y coluddyn ar gyfer dynion a merched 50 i 74 oed ar fin dechrau yn 2007.

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am asesu anghenion iechyd cleifion a darparu gwasanaethau iechyd i ddiwallu'r anghenion hynny. Bydd hyn yn cynnwys anghenion iechyd pobl â sgitsoffrenia.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'r Grwp Cydlynu Gwasanaethau Cancer i ddatblygu Fframwaith ar gyfer Cancer y Coluddyn a fydd yn hyrwyddo ymagwedd fwy cyfannol gan Fyrddau Iechyd Lleol.

Byddem yn cyfeirio yn ôl at ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhelliad 6 uchod lle yr ydym yn cyfeirio at isafswm safon genedlaethol 17 ar gyfer cartrefi gofal yn ymwneud â phrydau bwyd ac amserau bwyd.

Yn achos ysbytai, mae Safon 9 Safonau Gofal Iechyd Cymru 2005 yn nodi lle y darperir bwyd y dylai fod systemau ar waith i sicrhau y darperir dewis o fwydydd a baratoir yn ddiogel ac sy'n darparu deiet gytbwys ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau ac y bodlonir gofynion deietegol maethol, personol, diwylliannol a chlinigol unigol cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen er mwyn iddynt eu bwydo eu hunain a sicrhau bod ganddynt fynediad i fwyd 24 awr y dydd.